Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad Arolwg Gofalwyr Blynyddol

2018

1. Cyflwyniad

Bob mis Medi, mae Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnal arolwg blynyddol o ofalwyr sydd wedi eu cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol er mwyn cael eu barn am eu bywydau fel gofalwyr. Mae'n bosib fod gan y gofalwyr hyn berthynas neu ffrind sy'n derbyn gwasanaeth gan yr adran, neu gallant fod yn cynorthwyo rhywun nad ydynt yn derbyn unrhyw gymorth gan ein hadran gofal cymdeithasol.

Mae'r arolwg hwn wedi ei ddylunio i gasglu cymaint o ddata â phosib gan ofalwyr sy'n oedolion am amrywiaeth eang o anghenion, a'r nod yw darganfod beth sydd ei wir angen ar ofalwyr a sut gellir eu cefnogi. Caiff barn gofalwyr am berfformiad Gofal Cymdeithasol i Oedolion hefyd ei ddal.

2. Methodoleg yr Arolwg

Cynhaliwyd yr arolwg drwy anfon holiaduron at ofalwyr gweithredol wedi eu cofrestru ar fas data Gofal Cymdeithasol i Oedolion, yn ogystal â hyrwyddo'r arolwg ar y ganolfan ymgynghori, 'Eich Llais', sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod Lleol (gwefan CBSW, Facebook a Twitter) a drwy ddarparwr gwasanaeth ein gofalwyr a gomisiynwyd , sef y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS).

Fformatiwyd yr arolwg i chwe rhan:

1. Cymorth i Ofalwyr
2. Sut mae ein gwasanaethau'n bodloni anghenion y Gofalwr
3. Asesiad o Anghenion Gofalwyr
4. Deilliannau Iechyd a Lles Gofalwyr
5. Grant Gofalwyr
6. Cerdyn Argyfwng Gofalwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd roi sylwadau am eu sgorau ar ôl y ddwy adran gyntaf a hefyd ar ddiwedd yr arolwg, mewn perthynas â'r hyn mae Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion wedi'i wneud yn dda ac unrhyw faes lle gallem wella ein perfformiad.

3. Canfyddiadau Allweddol

Eleni rhannodd 169 o ofalwyr eu profiad a'u barn gyda ni. Mae hyn yn golygu cyfradd ymateb o 17% yn seiliedig ar gyrraedd 988 o ofalwyr unigol, sef ychydig yn llai na chyfradd ymateb y llynedd o 19%. Dychwelwyd 53 o holiaduron heb eu cwblhau hefyd gan dderbynwyr nad ydynt mewn rôl gofalu bellach.

Mae'r ystadegau canlynol wedi eu crynhoi o'r 169 o ffurflenni a dderbyniwyd yn ôl:

3.1 Oedran y Gofalwr:

Ymateb	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
25 – 44 mlwydd oed	10	6%
45 – 64 mlwydd oed	62	37%
65 – 84 mlwydd oed	75	45%
85+ oed a hŷn	9	5%
Gwell gen i beidio â dweud	10	6%

3.2 Rhyw'r Gofalwr



3.3 Pa mor hir ydych chi wedi bod yn Ofalwr?

Ymateb	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Llai na blwyddyn	8	6%
Llai na 5 mlynedd	46	32%
Llai na 10 mlynedd	24	17%
Mwy na 10 blynedd	67	46%

3.4 A oes gan yr unigolyn rydych yn gofalu amdano ddiagnosis o gyflwr penodol?



Mae un rhan o bump o'r gofalwyr a ymatebodd yn gofalu am rhywun gydag amrywiol ffurfiau o ddementia. Fodd bynnag mae'n amlwg o'r data bod yr anghenion cymorth yn benodol iawn i bob unigolyn a bod gofalwyr yn aml yn rheoli amrywiol anghenion cymorth ar gyfer y person maent yn gofalu amdano.

57% o ofalwyr oedd wedi derbyn cymorth neu wasanaethau yn cytuno bod Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion wedi darparu lefel dda o gymorth iddynt, sydd wedi helpu i wella ansawdd eu bywyd

54% o ofalwyr yn adrodd bod y deilliannau a nodwyd yn ystod yr Asesiad o Anghenion Gofalwyr wedi bod o gymorth iddynt yn eu rôl fel gofalwr.

76% o ofalwyr heb dderbyn Grant Bychan i Ofalwyr

3.5 Cymorth i Ofalwyr

Gofynnwyd i ofalwyr a oeddent yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth gan Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion drwy wybodaeth, cyngor a chymorth oedd yn ddefnyddiol iddynt ac a oeddent yn teimlo bod eu llais fel gofalwyr yn cael ei wrando arno. Roedd ychydig dros hanner o'r ymatebwyr (52%) yn cytuno ein bod wedi darparu digon o gymorth a gwybodaeth ac yn arbennig roedd hanner yr ymatebwyr yn credu bod y gwasanaeth rydym wedi ei ddarparu wedi gwella ansawdd eu bywyd.

Daeth yr ymateb cadarnhaol uchaf i un o'r cwestiynau gan 103 o ofalwyr oedd yn cytuno bod eu llais wedi ei wrando arno wrth drafod anghenion yr unigolyn maent yn gofalu amdano. Mae hyn yn dangos bod y gofalwr yn cael ei gynnwys yn unrhyw drafodaethau sy'n cael eu cynnal am y person sy'n cael ei ofalu amdano ac yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Yn anffodus, nododd 1 o bob 4 o'r gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg nad yw mynediad at gymorth gan Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn syml. Byddwn yn gweithio gyda gofalwyr i nodi ffordd haws i gael mynediad at gymorth gan ein bod yn cydnabod y dylai hyn fod yn syml iddynt pan fyddant yn darparu rôl mor hanfodol, ac yn methu treulio amser yn chwilio am yr wybodaeth y mae ei angen arnynt.

3.6 Sut mae ein gwasanaethau'n bodloni anghenion y Gofalwr

Dywedodd dros hanner ymatebwyr eleni (63%) ein bod yn bodloni rhai, pob un, neu ychydig o'u hanghenion fel gofalwr, sy'n debyg i'r ymateb a gafwyd llynedd.

Mae'n dda gweld bod gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, fodd bynnag roedd mwy o ofalwyr na'r llynedd yn teimlo nad yw Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion wedi diwallu eu hanghenion o ran eu cefnogi yn eu rôl gofalu. Byddwn yn parhau gyda'n gwaith gyda gofalwyr i sicrhau eu bod yn derbyn digon o help i atal gofalwyr rhag cael trafferthion yn y dyfodol.



3.7 Asesiad o Anghenion Gofalwyr

Mae Asesiad o Anghenion Gofalwyr yn gyfle i ofalwyr gael gwybodaeth, cyngor a chymorth gan adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Wrecsam. .

Mae'r nifer o ofalwyr a gafodd gynnig asesiad eleni wedi gostwng o 2017 ond mae'r gyfradd derbyn yn welliant ar ganlyniadau'r llynedd, gan i bron hanner y gofalwyr a gafodd gynnig asesiad y llynedd wrthod. Mae'r ffigyrau hyn yn awgrymu bod gofalwyr yn cael gwybod am bwysigrwydd yr asesiad pan y'i cynigir iddynt.

Roedd dros 85% o'r gofalwyr a aseswyd yn teimlo bod y broses wedi bod o gymorth iddynt yn llawn neu yn rhannol yn eu rôl fel gofalwr. Llynedd, pan ofynnwyd y cwestiwn hwn i ofalwyr, dywedodd 31% nad oedd yr asesiad wedi bod o gymorth iddynt o gwbl. Mae'n galonogol mai dim ond 12% sydd â'r farn honno yn 2018 sy'n golygu bod gwelliannau wedi eu gwneud i'r broses asesiad sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, a bod gofalwyr yn teimlo bod yr asesiadau yn llesol ac o fudd.

Ydych chi wedi cael cynnig Asesiad o Anghenion Gofalwr?			
Ymateb	**Nifer o ymatebwyr 2017**	**Nifer o ymatebwyr 2018 2018**	**Amrywiant**
Ydw	84	76	-8
Nac ydw	94	66	+28

Wnaethoch chi dderbyn y cynnig hwn a chwblhau'r asesiad gyda Gweithiwr Gofal Cymdeithasol?			
Ymateb	**Nifer o ymatebwyr 2017**	**Nifer o ymatebwyr 2018 2018**	**Amrywiant**
Do	63	57	+6
Naddo	54	17	+37

Fodd bynnag mae'n bwysig nodi yr ymddengys bod dryswch yn parhau am yr Asesiad o Anghenion Gofalwyr; beth ydyw, pwy sy'n cwblhau'r asesiad ac a yw gofalwr wedi cael cynnig un neu wedi derbyn un o gwbl. Felly heb adnabod pob gofalwr a atebodd 'Na' i'r cwestiwn hwn, ni allwn gael ymateb cywir.

3.8 Deilliannau Iechyd a Lles Gofalwyr

Dywedodd bron i chwarter o ymatebwyr i'r arolwg sydd ar hyn o bryd yn darparu gofal na fyddai dim byd yn helpu iddynt deimlo yn fwy hyderus yn eu rôl fel gofalwr, tra roedd 18% o ofalwyr yn teimlo y byddent yn ennill hyder pe baent yn gwybod â phwy i gysylltu o fewn yr adran yn ogystal â bod a rhwydwaith gefnogi dda o'u hamgylch.

Cael rhwydwaith gymorth a pheidio bod yn daer am help

Dywedodd 19% o ofalwyr eu bod yn derbyn gwybodaeth gan eu Meddyg Teulu neu gan Nyrsys Ardal, neu gan elusennau i'w cefnogi tra maent yn gofalu, ac mae 15% o ofalwyr yn teimlo fod yr wybodaeth maent yn ei dderbyn yn enwedig o safbwynt dementia yn eu cynorthwyo i barhau fel gofalwr. Mae chwarter o ofalwyr yn teimlo bod eu hiechyd a'u lles eu hunain wedi dioddef o ganlyniad i ddarparu gofal i berthynas neu gyfaill.

Mae gen i arthritis nad yw'n gwella a 'dwi heb gael seibiant rhag straen gofalu. Mae'n debyg y byddai seibiant byr o fudd i fi

3.9 Cynllun Grant Bychan i Ofalwyr

Mae Cynllun Bychan i Ofalwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn darparu cymorth ariannol i ofalwyr i brynu eitemau i wella eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Gofynnwyd i ofalwyr ar gyfer beth wnaethon nhw ddefnyddio'r grant a'r peth mwyaf cyffredin i bron un rhan o dair o ymatebwyr oedd seibiant iddyn nhw eu hunain neu'r person y gofalir amdano. Rydym yn deall bod cael seibiant yn hanfodol i ofalwyr er mwyn eu galluogi i barhau i ddarparu cymorth, sy'n gallu rhoi straen gorfforol ac emosiynol arnynt.

Roedd pethau eraill a brynwyd gan ofalwyr yn cynnwys:

- Offer garddio (18);
- Dodrefn (9%);
- Gwelliannau i'r cartref (9%) a
- Cadeiriau arbenigol (6%)

Gan mai dim ond chwarter yr ymatebwyr ddywedodd eu bod wedi derbyn Grant Bychan i Ofalwyr gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, mae'r ffigyrau hyn yn datgelu bod nifer fawr o ofalwyr yn methu allan ar gymorth ariannol allai eu galluogi i brynu rhywbeth fyddai'n gwella eu hiechyd a'u lles. a chaniatáu iddynt barhau yn eu rôl fel gofalwr. Byddwn yn sicrhau bod ein Cynllun Taliad Uniongyrchol i Ofalwyr yn cael ei hyrwyddo'n eang ar draws Wrecsam a thrwy NEWCIS er mwyn ymwybodol o'r cyllid ychwanegol hwn.

Wyddwn i ddim bod grantiau ar gael!

Roedd sylwadau gan ofalwyr yn amlygu sut mae'r grantiau hyn wedi gwneud gwahaniaeth iddyn nhw a'u rôl fel gofalwr.

- ***"Fe wnaeth fy ngalluogi i gael 'amser i ffwrdd' i fod yn fi'n hun a chael seibiant oddi wrth ofalu".***

- ***"Roedd yn gynnig caredig iawn i gydnabod y gofal a ddarparwyd heb ddibynnu ar yr awdurdod dros y blynyddoedd. Gan fy mod o oedran ymddeol dydw i ddim yn gymwys i unrhyw beth oherwydd fy incwm".***

3.10 Cerdyn Argyfwng Gofalwyr

Mae'r Cerdyn Argyfwng i Ofalwyr yn gosod dewis y gofalwr o gymorth argyfwng ar gyfer y person maent yn gofalu amdano yn ei le, sy'n cynnig tawelwch meddwl mewn argyfwng. Gofynnom i ofalwyr am eu barn ar y cynllun y comisiynodd Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion y Groes Goch i'w ddarparu tan 31 Mawrth 2018.



Gofynnom hefyd a oeddent yn ymwybodol o'r Cerdyn Argyfwng i Ofalwyr ac roedd yn syndod nad oedd tri chwarter o'r ymatebwyr yn ymwybodol ohonynt, a llawer yn gofyn sut y gallent gael gafael ar un.

Rhaid i fi gael gwybod sut i wneud cais. Byddai'n help pe bai'n rhaid i fi fynd i'r ysbyty

Mae'r ymatebion yn dangos nad yw llawer o'r gofalwyr yn dal yn ymwybodol o'r gwasanaeth ataliol hwn ond bod y gofalwyr sydd â cherdyn yn cael tawelwch meddwl pan fyddant i ffwrdd oddi wrth y person y maent yn gofalu amdano.

Mae o gymorth i fi wybod pe bai unrhyw beth yn digwydd i fi

Yr hyder a'r sicrwydd nad ydw i (na fy ngŵr) ar ben fy hun os bydd yn rhaid i fi fod yn absennol am ryw reswm

3.11 Perfformiad Gofal Cymdeithasol I Oedolion

Gofynnom i ofalwyr ddweud wrthym beth mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi ei wneud yn dda drwy'r flwyddyn o ran cefnogi gofalwyr, ac i adael i ni wybod hefyd lle gallem wella (gweler Atodiad 1 am yr ymatebion yn llawn).

Derbyniwyd ymatebion tebyg eleni i rai 2017; gan gynnwys sylwadau nad yw Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion wedi gwneud unrhyw beth yn dda, ond hefyd dywedodd 10% o'r ymatebion ein bod wedi darparu lefel dda o gymorth a chyngor i ofalwyr, sy'n debyg i'r llynedd. Dywedodd 5% o'r gofalwyr a atebodd yr arolwg eleni eu bod am ein canmol am y seibiant rydym wedi ei ddarparu. Mae'n braf clywed hyn, ac mae'n dangos bod ein gwasanaeth seibiant, a ddarperir gan Wasanaethau Gofal Croesffyrdd Ymddiriedolaeth Gofal Gogledd Cymru wedi bod yn fanteisiol i ofalwyr yn Wrecsam ac wedi darparu'r seibiant sydd ei angen arnynt i barhau i ofalu.

Yn anffodus mae gofalwyr yn dal i deimlo bod rhai meysydd lle gallai Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion wella, y prif faes gwella wnaeth ymddangos eto eleni yw'r ffordd rydym yn cyfathrebu gyda gofalwyr, a ymddangosodd yn 14% o'r ymatebion. Dywedodd 5% o'r ymatebion bod rhaid gwella sut rydym yn ymwneud â gofalwyr, a byddwn yn canolbwyntio ar hynny dros y flwyddyn nesaf, yn dilyn y gwaith cyd-gynhyrchu a wnaed gyda gofalwyr ynghynt eleni pan wnaethom ni gomisiynu ein gwasanaeth newydd i ofalwyr.

"Wedi helpu gael tocyn bws i fy mab a rhoi'r hyder iddo fynd allan i'w waith gwirfoddoli"

"Bob amser yn dychwelyd galwad ffôn a bob amser wedi fy helpu pan oeddwn angen cymorth"

"Maent yn gwneud eu gorau dan amgylchiadau anodd"

"Wedi siarad gyda [fy mab] fel person, sy'n annibynnol iawn"

"Maent bob amser yn helpu ym mhob ffordd posib"

"Angen gwell cyfathrebu rhwng pawb. Dwi'n pasio negeseuon rhwng gofalwyr, ffisios, fferyllydd, nyrsys, Therapi Galwediaethol, meddyg, gweithiwr cymdeithasol. Weithiau mae fy mhen yn troi"

"Rhannwch wybodaeth gyda gwasanaethau lleol eraill fel nad oes yn rhaid ailadrodd gwybodaeth"

"Cadwch mewn cysylltiad, mae pethau'n newid ac rydym yn teimlo'n bod wedi'n anghofio"

"Cysylltu â gofalwyr yn fwy aml i ymholi am eu lles. Ymweliad gan weithiwr cymdeithasol o dro i dro"

"Mwy o gyfathrebu, gwell dealltwriaeth, hyfforddiant /edrychwch ar bethau o'n safbwynt ni yn hytrach nac o'ch safbwynt chi!"

4. Casgliad

Mae’r sylwadau a wnaed yn arolwg eleni yn debyg i’r rhai a wnaethpwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol, ac mae’r cyfraddau canrannau wedi aros yn weddol debyg ar gyfer pob cwestiwn.

Roedd y gofalwyr yn falch iawn o'r seibiant a ddarparwyd drwy Wasanaethau Gofal Croesffyrdd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru eleni. Mae NEWCIS yn parhau i ddarparu seibiant i ofalwyr a byddwn yn parhau i weithio gyda gofalwyr i nodi ffyrdd y byddent yn elwa o’r math hwn o gymorth, er mwyn sicrhau bod modd iddynt barhau i ofalu.

Pryder sylweddol parhaol a nodwyd gan sawl gofalwr eto eleni yw diffyg cyswllt, neu gyswllt a chyfathrebu gwael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion o ran darparu cymorth a sicrwydd i ofalwyr. Byddwn yn gwneud gwaith i ddeall yn well y pryderon hyn, mynd i’r afael ag unrhyw broblemau a nodir a ble bo'n bosib yn newid y ffyrdd rydym yn cyfathrebu â gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwell cefnogaeth.

Mae sut gallant gael hyd i wybodaeth i gefnogi eu rôl, neu sut i gysylltu â'r adran am gymorth, yn parhau i fod yn broblem i ofalwyr. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Wrecsam fel Awdurdod o safbwynt gofalwyr a bodloni’r gofynion newydd hyn, yn ogystal â chyflwyno’n gwasanaeth gofalwyr gan NEWCIS, y gobaith yw y bydd hyn yn mynd i’r afael â nifer o bryderon a fynegwyd.

5. Argymhellion

- Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gydag Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd.

- Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor a’r ganolfan ymgynghori, “Eich Llais”.

- Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda Chyfarwyddiaeth Gofal Cymru er mwyn paratoi ar gyfer archwiliad y Gwasanaeth Pobl Hŷn, Gofal Cymdeithasol I Oedolion.

6. Cynllun Gweithredu

Gweithgaredd	Cam Gweithredu	Materion a godwyd	Gan bwy	Erbyn pryd	Cwblhawyd D / N
NEWCIS Cofrestru gofalwyr	Darparu manylion cyswllt i NEWCIS o'r gofalwyr hynny a nododd eu bod am gofrestru gyda'u sefydliad	**Materion a godwyd -** Dim materion	Tîm Comisiynu a Chontractau, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	Diwedd Tach. 2018	D
Gofalwyr yn derbyn gwybodaeth , cyngor a chymorth cywir ac amserol	Gwneud gwaith penodol gyda gofalwyr i fynd 'r afael â'r meysydd pryder a nodwyd	**Materion a godwyd –** Gofalwyr yn nodi eu bod yn ei chael hi'n anodd cael gwybodaeth a chymorth, a ddim yn gwybod sut i gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	Tîm Comisiynu a Chontractau, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	Parhaol 2018-2019	
Gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ag ac yn cael sicrwydd, er mwyn rhwystro gofalwyr rhag mynd i drafferthion	Gwneud gwaith penodol gyda gofalwyr i fynd 'r afael â'r meysydd pryder a nodwyd	**Materion a godwyd -** Gofalwyr ddim yn teimlo bod digon o gyswllt ar ôl y cymorth cychwynnol gan eu Gweithiwr Cymdeithasol ac mae cyfathrebu gan Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn wael	Tîm Comisiynu a Chontractau, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	Parhaol 2018-19	
Gofalwyr yn gallu gwneud cais am Daliad Uniongyrchol i Ofalwr	Hyrwyddo'r cynllun yn eang drwy Wrecsam drwy'r awdurdod lleol, sefydliadau trydydd sector a iechyd er mwyn sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'u hawl.	**Materion a godwyd -** Nododd llawer o'r gofalwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r cynllun nac yn gwybod sut i wneud cais	Tîm Comisiynu a Chontractau, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	Parhaol 2018-19	

Atodiad 1

Data Analysis 2018.xlsx

1. **Dadansoddi'r Data**

2. **C1 - 5 Cymorth i Ofalwyr**




Cymharu Barn Gofalwyr o ran lefel y cymorth a ddarperir
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
58%
58%
51%
64%
56%
57%
66%
47%
52%
55%
Fel Gofalwr, gallaf gael gafael ar wybodaeth gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion Wrecsam sy'n ddefnyddiol i mi
O ystyriad popeth, mae Gofal Cymdeithasol I Oedolion Wrecsam wedi helpu I wella ansawdd fy mywyd
Gwrandawyd ar fy marn wrth ystyriad fo rôl fel gofalwr a sut y mae hynny'n effeithio arnaf i
Gwrandawyd ar fy marn wrth drafod anghenion y person rydw I'n gofalu amdano
Fel Gofalwr, roedd cael mynediad i gefnogaeth gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion Wrecsam yn syml
Cytuno'n Gryf & Tueddu I gytuno 2018/19
Cytuno'n Gryf & Tueddu I gytuno 2017/18

3. C7 Asesiad o Anghenion Gofalwyr







4. C8 Sut ydych chi'n teimlo yn eich rôl fel gofalwr?



5. **C9 Cynllun Grant Bychan i Ofalwyr**



6. **C10 Cerdyn Argyfwng Gofalwyr**





7. Y 5 Prif Thema

5 Ffynhonnell Uchaf o Ddarpariaeth Gwybodaeth	Cyfrif y themâu	%
Ysbyty / Meddyg Teulu	25	16
Y Rhyngrwyd	17	11
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam	13	8
elusennau	8	5
Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)	6	4

Y 5 Prif Thema ar gyfer Gwariant Grant Gofalwyr	Cyfrif y themâu	%
Seibiant	10	29
Offer garddio	6	18
Dodrefn	3	9
Gwelliannau i'r cartref	3	9
Cadair	2	6

Y 5 Prif Thema o ran Gwahaniaeth a wnaed gan Grant Gofalwyr	Cyfrif y themâu	%
Wedi bod o lawer o gymorth	14	54
Caniatáu amser i ffwrdd	5	19
Dim help	1	4
Wedi bywiogi'r tŷ	5	19
Prynu cymorth symudedd	1	4

Y 4 Prif Thema o ran sut mae Cerdyn Argyfwng Gofalwyr wedi bod o fantais	Cyfrif y themâu	%
Tawelwch meddwl	20	71
Y Groes Goch Brydeinig ddim yn gweithredu'r gwasanaeth hwn bellach	1	4
Ddim yn siŵr at beth defnyddir y cerdyn	5	18
Erioed wedi ei ddefnyddio	2	7

Y 5 Prif Thema o ran y cwestiwn ar Wella Cymorth i Ofalwyr	Cyfrif y themâu	%
Dim cymorth wedi ei ddarparu	13	25
Cyfathrebu gwael, neu ddim cyswllt	9	17
Addasiadau heb eu darparu	3	8
Cymorth rhwng 9am – 5pm yn unig	2	4
Y broses yn rhy hir a dryslyd	2	4

Y 5 Prif Thema ar gyfer “Beth, os unrhyw beth fyddai’n gwneud i chi deimlo’n fwy hyderus yn eich rôl fel gofalwr?” – 55 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Ni allai dim wneud i fi deimlo’n fwy hyderus	7	13
Gwybod â phwy i gysylltu	6	11
Gwell cymorth	6	11
Gwell gwybodaeth a chyngor	5	9
Seibiant	3	5

Y 5 Prif Thema ar gyfer “Pa wybodaeth yn arbennig fyddai yn eich cefnogi chi yn eich rôl fel gofalwr?” 52 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Canmoliaeth gyffredinol ar gyfer staff	6	12
Does dim gwybodaeth yn fy nghefnogi yn fy rôl fel gofalwr	5	10
Gwell cyfathrebu	5	10
Taflenni	2	4
Gwrando ar y person y gofalir amdano	2	4

Y 5 Prif Thema ar gyfer “Beth, os unrhyw beth fyddai yn eich galluogi i reoli'r tasgau hyn yn well” 54 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Gwell iechyd	8	15
Cael tasgau’n anodd	7	13
Ni fyddai dim yn fy ngalluogi i reoli'r tasgau hyn yn well	7	13
Mwy o gefnogaeth	6	11
Cymorth Ymarferol	5	9

Y 5 Prif Thema ar gyfer " Beth, os unrhyw beth allai wella eich iechyd a lles?” 73 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Seibiant	11	15
Staff cymorth addas	5	7
Gwell dealltwriaeth gan weithwyr proffesiynol	5	7
Gwell iechyd	4	9
Ni allai unrhyw beth wella fy iechyd a lles	3	4

Y 5 Prif Thema ar gyfer “Beth, os unrhyw beth fyddai o gymorth i chi gael gwell cydbwysedd?” – 42 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Mwy o amser i fi fy hun	5	12
Mae rôl fel gofalwr yn rheoli bywyd	5	12
Seibiant	4	10
Gweithio’n galed wrth ofalu	3	7
Gwell cymorth a chyngor	3	7

Y 5 Prif Thema ar gyfer "Beth, os unrhyw beth, fyddai'n rhoi tawelwch meddwl i chi?" – 53 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Mwy o gymorth a chyngor	7	13
Ni fyddai unrhyw beth yn rhoi mwy o dawelwch meddwl i fi	6	11
Tawelwch meddwl i'r person rwy'n gofalu amdano	5	9
Mae toriadau i wasanaethau yn achosi pryder	4	8
Gwell iechyd i'r person rwy'n gofalu amdano	4	8

Y 5 Prif Thema ar gyfer "Beth, os unrhyw beth fyddai o gymorth i chi ddiffinio eich meini prawf?" – 23 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Dim terfynau	7	30
Person penodol i gysylltu â nhw	3	13
Iechyd gwael	2	9
Mwy o gymorth	2	9
Ni fyddai unrhyw beth o gymorth ifi ddiffinio fy meini prawf	2	9

Y 5 Prif Thema ar gyfer "Beth, os unrhyw beth fyddai'n eich helpu chi i deimlo'n eich bod yn cael gwell cefnogaeth?" 46 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Cyswllt â Gweithiwr Cymdeithasol	9	20
Ni fyddai unrhyw beth o gymorth i fi deimlo bod mwy o gefnogaeth gen i	7	15
Galwadau dilynol	6	13
Cymorth teulu	6	13
Teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi	2	4

Y 5 Prif Thema ar gyfer "Beth, os unrhyw beth fyddai yn helpu chi i wella eich cysylltiadau cymdeithasol?" 34 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Seibiant	6	17
Dim bywyd cymdeithasol	5	15
Cefnogaeth	3	9
Ni fyddai unrhyw beth o gymorth i wella fy nghysylltiadau cymdeithasol	3	9
Cyswllt â Gwaith Cymdeithasol	2	6

Y 5 Prif Thema ar gyfer "Beth, os unrhyw beth fyddai'n eich galluogi i gael bywyd eich hun?" 49 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Dim bywyd fy hun	7	14
Seibiant	5	10
Mwy o gymorth ariannol	4	8
Gofal 24 awr felly wnaiff dim byd helpu	4	8
Gwell iechyd	3	6

Y 5 Prif Thema ar gyfer "Beth, os unrhyw beth fyddai yn eich galluogi i gael amgylchiadau materol gwell?" 42 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Mwy o incwm cartref	10	23
Fyddai dim byd yn fy ngalluogi i gael amgylchiadau materol gwell	5	12
Addasiadau	4	10
Incwm yn bygwth budd-daliadau	3	7
Gwell iechyd	2	5

Y 5 Prif Thema ar gyfer "Beth, os unrhyw beth fyddai yn cefnogi chi i gael hyd i'r wybodaeth rydych ei angen?" 34 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Gwell gwybodaeth ar y we	5	15
Pe bawn yn gwybod i le i fynd i gael gwybodaeth	3	9
Teulu	2	6
Mwy o lenyddiaeth ar gael	2	6
NEWCIS (Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru)	2	6

Y 5 Prif Thema ar gyfer "Sut ydych chi'n credu gellid gwella ansawdd eich bywyd?" 74 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Amser i ffwrdd	18	24
Ni allai unrhyw beth wella ansawdd fy mywyd	11	15
Seibiant	8	11
Cefnogaeth gan fy nheulu	5	7
Teimlo bod yr Awdurdod Lleol yn fy ngwerthfawrogi	3	4

Y 5 Prif Thema ar gyfer "Beth yn fwy ellid ei wneud i'ch cefnogi chi yn eich rôl fel gofalwr?" 62 ymateb	Cyfrif y themâu	%
Mwy o gefnogaeth	13	21
Ni ellir gwneud dim i fy nghefnogi yn fy rôl fel gofalwr	11	18
Cyswllt â Gwaith Cymdeithasol	9	15
Cymorth Ariannol	6	10
Seibiant	4	6

Y 5 Prif Thema ar gyfer beth mae Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion wedi ei wneud yn dda?	Cyfrif y themâu	%
Dydy Gwasanaethau Cymdeithasol i oedolion ddim wedi gwneud unrhyw beth yn dda	17	27
Canmoliaeth gyffredinol	7	11
Cymorth a chyngor	7	11
Addasiadau	4	6
Seibiant	3	5

Prif Themâu o ran yr hyn y gallem ei wneud yn well	Cyfrif y themâu	%
Cyfathrebu'n well	5	14
Gwella gwybodaeth a chyngor	3	8
Gwrando mwy ar ofalwyr	3	8
Seibiant	2	5
Cynnwys Gofalwyr	2	5